# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 4 Hydref 2016
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dylan Edwards (Cadeirydd), Ada Evans, Ann Tudor, Meic Francis, Richard Davies, John Davies, Caredig Jones, Rowland Jones, Dewi Rattray, Richard Davies & Meirion Davies.**

**YMDDIHEURIADAU:**

**ABSENOLDEBAU:**

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod Miss Tachwedd gan y Cadeirydd Dylan Edwards. Darllenwyd cyfnodion Miss Hydref gan y clerc. Fe wnaeth y Cyng.Meirion Davies cynig eu bod yn gywir ac fe eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis.

**152/947 - MATERION YN CODI**

1. Mae'r twll yn y ffordd ger Llidiardau yn gwaethygu, gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at yr Adran priffyrdd eto ynglŷn â hyn.
2. Anfonnwyd gwahoddiad i'r Tim plismona Bro I fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned flwyddyn nesaf. Ni does ymateb wedi eu derbyn eto.
3. Fe wnaeth y Cynghowyr Richard Davies, Rowland Jones a Meirion Davies mynychu'r Cyfarfod Ymgynghorol 2016 neithiwr. Rhoddwyd adroddiad am y noson.
4. Peiriant Difib:- Diolchwyd Dewi Rattray am roi bocs y Difib yn ei le ar wal yr Hen Ysgol. Fydd angen rhoi nodyn ar y bocs i ddangos y cynnwys, a hefyd i dynnu sylw pawb at ba mor bwysig yw'r cynnwys. Ofynnwyd I'r clerc trafod hwn gyda'r FUGS.

**15/948- LLYTHYRON**

1. Agenda cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru.
2. Llythyr wrth Gyngor Ceredigion ar y pwnc 'clutter free Ceredigion'.
3. Llythyr wrth Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewyn Cymru ynglŷn â'i chynllun draft ar gyfer 2017-2022.
4. Gwahoddiad wrth Ysgol Henry Richards Tregaron, I brynhawn gwobrwyo ar Ddydd Mawrth Tachwedd 15ed.
5. Llythyr wrth Gyngor Ceredigion yn hysbysu bod ar fun dechrau adolygu'r deg mlynedd 1af o'I Gynllun Gwella Hawiau Tramwy.
5. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru.

**15/949- ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Tachwedd, sef £113.27. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Richard Davies.
2. PAYE Miss Awst, Hydref a Thachwedd. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meic Francis.
3. Invoice wrth Dan Owens ar gyfer torri'r fynwent. Cyfanswm hyn yw £1135.00. Cynigwyd i'w talu gan y Cyng. John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor. Ofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o ddiolch at Dan.

4. Tal am y Dorch Pabby Coch. Awgrymwyd siec o £25, sy'n cynrychioli cost y dorch a rhodd. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Caredig Jones ac eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor.

**15/950 – CYNLLUNIO**

Cais A160941 – 5 Clos Henri Llanilar.

Retention of use as a respite home for supporting young disabled people.

Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Cynnigwyd gan y Cyn. Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng. Caredig Jones. Roedd pawb yn gytun.

**15/946 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Noson Goleuo'r Goeden: 4ydd Rhagfyr am 5yh. Mae'r clerc wedi bod yn gysylltiad â Tom Edwards ynglŷn â gosod y goleuadau. Phasiwyd i'r Cyng. Caredig Jones i archebu'r goeden erbyn y Tachwedd 24. Unwaith eto, bydd Cyng.Ada Evans yn gyfrifol am drefnu'r lluniaeth am y noson. Cyng.Ann Tudor I wneud yn siŵr bod Sion Corn yn troi i fynnu eleni eto ☺.
2. Tynnwyd sylw gan y Cyng Ann Tudor at ba mor wael mae'r goleuadau tu allan I Ganolfan yr Hen Ysgol. Mae son fod aelod o'r clwb WI Llanilar wedi cael niwed wrth faglu yn y tywyllwch.
3. Codwyd sylw 'collapsed drain' wrth ymyl Penrhiwfach (wrth droi tuag at Drefaes) gan y Cyng. Meirion Davies. Dwedwyd for y dŵr yn rhedeg ynol tuag at Penrhiw Fach. Hefyd dwedwyd fod cyflwr y safle bws yno yn ofnadwy. Nid ydynt yn gallu eu glanhau ac mae hyn yn achosi i'r 'visability' i fod yn wael iawn wrth i blant aros am fws yr ysgol. Phasiwyd I'r clerc ysgrifennu at y cyngor sir ynglyn a hyn.
4. Ofynnwyd I'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir am ddiweddariad ar y tir lawr y Hen Orsaf…ydi o wedi eu gwerthu eto
5. Mae'r arwyddion yn y fynwent angen eu hadnewyddu.
6. Gwyn oddiwrth Mr & Mrs Smith am gyflwr y fford ar bwys Ffynon Drindod. Maent yn rhy gil ac yn achosi damweiniau. Ofynnwyd I'r clerc phasio'r consyrn yma ymlaen i'r Cyngor Sir.

Orffenwyd y gyfarfod am 9.15pm